**<u>Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 yn Nos Fawrth 20fed o Chwefror 2018 yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.</u>**

**<u>Presennol:</u>** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Goronwy Hughes, Clifford Williams, Cemlyn Jones, Avril Jones, Haf Williams, Llywelyn Williams, Martin Jones, Philip Roberts, Rhys Parry.

**<u>Ymddiheuriadau</u>:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Meirwen Lloyd a Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)

**<u>Clerc:</u>** Meirion Jones

**115. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Avril Jones am gadeirio cyfarfod mis Ionawr yn ei absenoldeb

**116. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**117. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w nodi fel yn briodol

**118. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ionawr 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr 2018 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**119. Materion yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd parthed ehangu'r cyflymder 30 milltir yr awr ar y ffordd allan o Llanrug i gyfeiriad Pontrug.

**120. I ethol Is-gadeirydd am weddill y flwyddyn, hyd y cyfarfod blynyddol.**

Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Is-gadeirydd hyd y cyfarfod blynyddol

**121. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

a) Gwagio Biniau - Nodwyd fod y trefniant i wagio biniau yn y fynwent yn gweithio yn dda iawn ac fod y staff angen clod am eu gwaith

b) Ymestyn y Fynwent - Y Cadeirydd i gysylltu a'r ffermwr sydd yn defnyddio'r cae ar hyn o bryd ac i egluro y bydd angen symud ffensys ayyb.

c) Cwyn - Adroddwyd fod cwyn wedi ei dderbyn am gyflwr y fynwent un bore. Natur y gwyn oedd fod potiau blodau wedi eu gwasgaru ar hyd y lle. Ymddengys, yn dilyn ymchwiliadau mae'r gwyntoedd cryf yn ddiweddar a achosodd hyn.

d) Pris am y wal – Nodwyd nad oedd prisiau wedi eu derbyn eto oherwydd nad oedd y contractwyr arfaethedig yn fodlon rhoi pris nawr oherwydd ni fydd y gwaith yn cychwyn hyd yr Haf.

e) Asesiad Risg – Adroddwyd nad oedd asesiad risg wedi ei wneud o'r fynwent ac fod angen un.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y wybodaeth;

b) Y Clerc i gesio enghreifftiau o asesiadau risg gan Gynghorau eraill;

c) Pwyllgor y Fynwent i gyfarfod ar 7fed o Fawrth yn Y Sefydliad Coffa am 7:00 yh i fynd drwyddynt

**122. I dderbyn sylwadau ar faterion llwybrau cyhoeddus**

**Llwybr Carreg Fran, Cwm y Glo**

Adroddwyd fod llythyr wedi ei anfon at y Swyddog Llwybrau, Cyngor Gwynedd ond hyd yma nid oes ymateb wedi dderbyn

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**123. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

**Holiaduron Cwm y Glo -** Adroddwyd fod y cyfnod ymgynghoriad bellach wedi dod i ben ac fod angen i aelodau Cwm y Glo ddehongli'r ymatebion

**Penderfynwyd:** Yr aelodau i gyfarfod i drafod yr ymatebion ar 26ain o Chwefror 2018 am 7:00 yn yn Menter Fachwen, Cwm y Glo

**124. I addasu fel yn briodol a derbyn y polisi iaith (eisoes wedi derbyn i fyny hyd at 4.5.1 – Tachwedd 2017 - eitem 69)**

**Penderfynwyd:** Mabwysiadu'r polisi iaith ar gyfer Cyngor Cymuned Llanrug

**125. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug**

Adroddwyd nad oedd cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr wedi bod

**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth

**126. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd (oherwydd fod y Cynghorydd Berwyn Parry Jones wedi ymddiheuro na all fod yn bresennol yn y cyfarfod, mae wedi anfon adroddiad i'r Cyngor Cymuned fydd yn cael ei gylchredeg gyda'r agenda).**

**Nodwyd yr adroddiad canlynol gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones**

Adroddiad i'r Cyngor Cymuned – Mis Chwefror 2018

**Trethi 2018 – 2019**

Y Cabinet erbyn hyn wedi gwneud penderfyniad ac yn gofyn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar Mawrth 1af i gymeradwyo codiad o 4.8% yn y trethi i'r flwyddyn nesaf.

Er fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn 2.6% o gynnydd yn ei grant gan Llywodraeth Prydain, dim ond 0.2% ar gyfartaledd maent yn ei roi i Llywodraeth Lleol, maent wedi penderfynu rhoi mwy o arian i Iechyd. Gwynedd wedi gwneud yn well na rhai awdurdodau eraill wedi cael cynnydd o 0.6%, er hynny wrth gwrs mae chwyddiant yn 3.1% ar y funud, felly ddim digon o godiad yn y grant i ymateb i chwyddiant.

**Cynllunio**

Mi fydd Cynllun ieir Plas Tirion yn mynd o flaen y Pwyllgor Cynllunio yn Dolgellau ar y 26ain o Chwefror am benderfyniad.

**Yn lleol**

Cynllun uwchraddio y llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug, i fod i ddechrau 19 Chwefror ac i gymryd oddeutu chwech wythnos. Fydd trefniadau yn ei lle i sicrhau fod llwybr troed dros dro yn ei le tra mae'r gwaith yn cael ei gwblhau. Fydd hyn yn golygu gostwng y cyfyngiad cyflymder o 50 mya i 30 mya dros dro.

Rwyf hefyd wedi cael cadarnhad y bydd y ffordd trwy Cwm y Glo yn cael ei ail wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf ac hefyd bydd y palmentydd yn cael ei gwneud.

Gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i drio rhwystro bobol gwaredu gwastraff yn slei bach yn ymyl y biniau ail-gylchu yn Cwm y Glo. Un neu ddau o bobol wedi ei dal yn ddiweddar. Mae'r awdurdod yn awyddus i dderbyn unrhyw wybodaeth am unrhyw fusnes hefo cathod yn yr ardal, oherwydd mae llawer o fagiau bin hefo "cat litter" ynddynt yn cael ei gollwng yna yn aml. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw un os fedrwch adael i'r Awdurdod wybod, neu gadael i mi wybod.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn y wybodaeth;
b) Nodwyd fod yr adroddiad yn fuddiol iawn i'r Cyngor;

c) Y Clerc i gysylltu a'r Cynghorydd Charles Jones, i holi os buasai ef yn fodlon paratoi adroddiad cyffelyb ar ei weithgareddau a digwyddiadau yn Cyngor Gwynedd dros ardal Llanrug

**127. Cymeradwyo'r syniad i gymuned Llanrug a/neu Cwm y Glô gofrestru gyda'r Cynllun 'Arwyr Sbwriel' Cadw Cymru'n daclus - cysylltu am gymorth/offer er mwyn trefnu dyddiad o waith casglu sbwriel (Cynghorydd Llywelyn Williams)**

Y syniad/gweithgarwch yn cael ei roi ger bron y cyfarfod, gyda Chyngor LL a CYG i gymeradwyo/gwrthod y cynllun.

Penodi rhywun i gysylltu Lee Oliver (Swyddog Gwynedd Cadw Cymru'n Daclus)
- Gellir derbyn offer, cyngor ac yswiriant am ddim gan CCD.

- Trafod a phenderfynu dyddiad, amser a lleoliad/ardal penodol i gael diwrnod o gasglu sbwriel. Ychwanegu mwy o ddyddiadau nes ymlaen.

- Trafod os oes angen ychwanegu ysgol Llanrug ac/neu Ysgol CYG ynghlwm â'r digwyddiad.

- Penodi aelod o gyngor LL a CYG i ysgrifennu darn i hysbysebu'r digwyddiad ar Eco'r Wyddfa.
https://www.keepwalestidy.cymru/arwyrsbwriel

**Adroddodd y Cynghorydd Llywelyn Williams ei fod wedi bod mewn cysylltiad a'r mudiad cadw Cymru'n daclus ac mae'n bosib y buasent yn gallu cynorthwyo'r Cyngor gyda offer casglu ysbwriel, yswiriant ayyb**

**Penderfynwyd:**

**a) Derbyn y wybodaeth a diolchwyd i'r Cynghorydd Llywelyn Williams am ei waith ymchwil;**

**b) Y Clerc i gysylltu a'r Swyddog priodol yn Cadw Cymru'n Daclus a'i gwahodd i gyfarfod nesaf o'r Cyngor**

**128. Sefydlu cyfrif Facebook / Twitter Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glô (Cynghorydd Llywelyn Williams)**

Trafodaeth o ran os oes na bwynt sefydlu un.

Trafodaeth o ran Manteision ac Anfanteision sefydlu tudalen/cyfrif ar gyfryngau cymdeithasol.

Penderfyniad/Pleidlais ar y mater.

**Penderfynwyd:** Peidio a creu cyfrif Twitter a Facebook ar hyn o bryd

**129. Edrych fewn i'r syniad o orsafoedd baw cŵn (dog stations) (Cynghorydd Llywelyn Williams)**

**http://www.jrbenterprises.com/dog-waste-stations**

Adroddwyd mai gorsafoedd oedd rhain yn dosbarthu bagiau plastig i bobl ddal baw cŵn gyda bin i'w waredu wedyn. Fe wyliwyd fidio o'r syniad gan y cwmni ac ymddengys fod y cwmnïau yma yn gweithio yn agos iawn gyda Cynghorau Sir

**Penderfynwyd:** Peidio gwneud penderfyniad hyd nes bod aelodau wedi cael cyfle i fynd drwy wefan y cwmni ac i geisio mwy o wybodaeth

**130. I ystyried cais am loches bws ar y lon fawr (dros ffordd i Challoner) (Cynghorydd Rhys Parry)**

Adroddwyd fod cais wedi cael ei wneud i gael lloches bws yn yr arosfa bws sydd gyferbyn a 'Challoner'. Nodwyd fod hon yn safle bws eithaf poblogaidd gyda pobl yn teithio i gyfeiriad Caernarfon.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am y posibilrwydd o osod lloches bws ar y safle

**131. I ystyried y posibilrwydd o ddarparu offer 'defibrillator' yn ardal y Cyngor. (Cynghorydd Rhys Parry)**

Adroddwyd fod nifer o bentrefi a cymunedau nawr yn gosod 'defibrillator' yn eu ardal.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r ddwy feddygfa yn Llanrug i holi am eu cyngor neu unrhyw gymorth y gallent roi

**132. I benderfynu os am gyfethol aelod ar sedd wag i gynrychioli ward Ceunant**

Adroddodd y Clerc fod y rhybudd statudol wedi ei arddangos ac nad oedd etholwr wedi dod ymlaen i ofyn am etholiad. Penderfyniad i'r Cyngor nawr yw i benderfynu os am gyfethol neu beidio. Nodwyd fod un cais wedi dod i law y barod ond er tegwch i bawb, os am gyfethol yna mae'n rhaid i'r sedd gael ei hysbysebu yn lleol

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc i hysbysu'r sedd wag am gyfnod o bythefnos;
b) Ar ddiwedd y cyfnod, Y Clerc i anfon manylion y sawl sydd wedi datgan diddordeb i'r aelodau;
c) Os na fydd ymgeiswyr eraill yn datgan diddordeb, ac fod yr aelodau yn hapus i gyfethol, yna gwahodd yr ymgeisydd y gyfarfod Mawrth

**133.** **Cais Cynllunio**

a) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0095/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Pen Rallt, Cwm-y-glo, Caernarfon, LL554DU
**Dyddiad Cofrestru:** 02-Chwefror-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

(Noder - Os yw'r math o gais yn Farn sgrinio / sgopio: Nid yw hwn yn gais cynllunio ond yn hytrach yn gofyn am farn y Cyngor ynglŷn â'r angen neu beidio am Asesiad Effaith Amgylcheddol)

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Creu mynedfa gerbydol newydd a thrac

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

Datganwyd diddordeb yn yr eitem nesaf gan y Cynghorydd Llywelyn Williams oherwydd ei fod yn byw wrth ymyl y datblygiad arfaethedig

b) **Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C18/0102/23/LL

**Lleoliad y Safle:** Lodge, Seiont Manor Hotel, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL552AQ

**Dyddiad Cofrestru:** 07-Chwefror-2018

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

(Noder - Os yw'r math o gais yn Farn sgrinio / sgopio: Nid yw hwn yn gais cynllunio ond yn hytrach yn gofyn am farn y Cyngor ynglŷn â'r angen neu beidio am Asesiad Effaith Amgylcheddol)

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Ymestyn yr eiddo presennol er mwyn creu 2 uned breswyl hunan gynhaliol

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

**134.** I ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan y mudiadau canlynol:

a) **Y Sefydliad Coffa;**
b) **Eco'r Wyddfa;**
c) **Mudiad Meithrin (Llanrug)**
d) **Eisteddfod yr Urdd;**
e) **CPD Llewod Llanrug;**
f) **CPD Llanrug Unedig**

Cyn trafod y ceisiadau yma, fe ddatganodd y canlynol ddiddordeb yn y ceisiadau ac ni gymerwyd rhan yn y drafodaeth

Y Cynghorydd Goronwy Hughes (eitem a & b)
Y Cynghorydd Phil Roberts (eitem f)
Y Cynghorydd Hefin Jones (eitem b)

**Penderfynwyd:** Cytunwyd fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| **a) Y Sefydliad Coffa** | **£2100** |
| **b) Eco'r Wyddfa;** | **£700** |
| **c) Mudiad Meithrin (Llanrug)** | **£700** |
| **d) Eisteddfod yr Urdd;** | **£0.00** |
| **e) CPD Llewod Llanrug; (Dim cais)** | **£0.00** |
| **f) CPD Llanrug Unedig** | **£700** |

**135. I nodi ac i awdurdodi'r Clerc gymryd y camau priodol i sicrhau fod y Cyngor yn Cydymffurfio a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (RhGDC) sydd yn dod i rym ar 25ain o Fai 2018. Mae'r Ddeddf Newydd yn disodli'r Ddeddf Gwarchod Data 1998. Mae llawer o egwyddorion RhGDC yr un fath â'r rhai yn Neddf 1998. Fodd bynnag, mae RhGDC yn gosod rhwymedigaethau newydd ar reolwyr data a phroseswyr data ac yn darparu hawliau gwell i unigolion**.

**Penderfynwyd:** Awdurdodi'r Clerc y gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio a'r Ddeddfwriaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 21:40

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**